# CABINET CYNGOR GWYNEDD

**Dyddiad y cyfarfod:** 26 Ionawr 2021
**Aelod Cabinet:** Y Cynghorydd Nia Jeffreys
**Swyddog Cyswllt:** Ian Jones
**Rhif Ffôn Cyswllt:**
**Teitl yr Eitem:** Cynllun Gwybodaeth

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

### 1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Bod y Cyngor yn mabwysiadu'r Cynllun

### 2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Er mwyn gosod arweiniad strategol ar sut ydym yn mynd i drin a rheoli gwybodaeth dros y blynyddoedd i ddod.

### 3 CYFLWYNIAD

Mae gan y Cyngor gynlluniau ar gyfer ei asedau hanfodol sef cyllid, pobl, eiddo ond mae gwybodaeth hefyd yn ased hanfodol yn y byd sydd ohoni. Credir bod angen cynllun i osod allan blaenoriaethau'r Cyngor yn y maes dros y 5 mlynedd nesaf.

Mae'r cynllun yn rhoi sylw i wahanol agweddau o ddefnyddio a thrin gwybodaeth:

- safonau ac ansawdd;
- defnyddio gwybodaeth;
- bod data ar gael yn rhwydd,
- lleihau'r defnydd o bapur;
- yr angen i gydymffurfio efo deddfwriaeth
- a sut ydym yn strwythuro ac yn cadw trefn ar yr holl wybodaeth bapur a digidol sydd gennym.

Mae'r angen i gael gwybodaeth ddibynadwy, amserol, o safon wastad wedi bod yn bwysig ond mae'r pandemig COVID wedi amlygu i'r eithaf pa mor hanfodol ydi hyn er mwyn gallu cynllunio'n effeithiol mewn argyfwng.

Fel arall, mae'r angen i warchod gwybodaeth bersonol yn angen statudol pwysig ac rydym yn nodi'r hyn sydd yn ddisgwyliedig ohonom er mwyn cadw at ddeddfwriaeth diogelu data.

Ceir cynllun gweithredu manwl ar ei gyfer fydd yn cael ei fonitro gan y Panel Gweithredol Llywodraethu Gwybodaeth, sy'n cael ei gadeirio gan Bennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Gorfforaethol.

Paratowyd y ddogfen gan roi gan roi sylw i ddyletswyddau'r Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Cynhaliwyd Asesiad Effeithiau (Atodiad 2) nad oedd yn amlygu unrhyw ardrawiadau negyddol.

## 4 RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Bydd mabwysiadu'r cynllun yn rhoi arweiniad strategol clir i'r maes o fewn y Cyngor ac yn ein galluogi i roi ar waith rhaglen sydd yn cyfarch gofynion y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 2016 a Deddf Diogelu Data 2018.

## 5 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Pe byddai'r Cabinet yn mabwysiadu'r Cynllun, byddwn yn cychwyn ar gynllun cyfathrebu i sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r cynnwys. Wedyn bydd modd cychwyn ar y cynllun gweithredu yn syth.

## 6 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

**Sylwadau'r Swyddog Monitro:**

Rwy'n croesawu'r ddogfen yma fydd yn rhoi sail ac eglurdeb o ran defnydd a rheolaeth data mewn modd priodol ac unol a'r gofynion statudol.

**Sylwadau'r Swyddog Cyllid Statudol:**

Rwy'n croesawu'r Cynllun Gwybodaeth cyflwynir yma. Nid oes cais am gyllid ychwanegol, felly disgwylir i wasanaethau'r Cyngor weithredu'r Cynllun o fewn adnoddau cyfredol yr adrannau perthnasol. Gallai methiant i ddefnyddio'n hadnoddau gwybodaeth yn y ffordd orau olygu costau i'r Cyngor, boed hynny fel canlyniad i golli cyfleon, neu ddirwyon am fethu cadw'r wybodaeth yn ddiogel. Drwy wireddu nodau'r Cynllun a gwneud defnydd mwy effeithiol, effeithlon a diogel o'r wybodaeth, dylai'r Cyngor wella'r gwasanaethau i bobl Gwynedd.

# Cynllun Gwybodaeth
# 2021-2026

## 1. Cyflwyniad

### Uchelgais

Bod y Cyngor yn gwneud y defnydd gorau a chyfreithlon o wybodaeth at ddibenion heddiw ac yfory.

### Pwrpas

Gosod cyfeiriad a chreu fframwaith ar gyfer gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o wybodaeth a rheoli a diogelu'r wybodaeth honno.

### Nod

- Sicrhau ein bod yn uchafu potensial yr holl adnoddau gwybodaeth sydd gennym
- Sicrhau bod penderfyniadau sy'n effeithio ar drigolion yn cael eu gwneud ar sail gwybodaeth gyflawn a chywir
- Cadw at ddeddfau gwybodaeth – Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, Deddf Diogelu Data, Deddf Rhyddid Gwybodaeth
- Sicrhau bod staff a'r cyhoedd yn medru cael at wybodaeth yn rhwydd

### Cyd-destun

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gosod pwyslais ar ddatblygiad cynaliadwy, ac felly mae hyrwyddo gweithio'n electronig, ynghyd â bod â'r wybodaeth i fod yn llawn ymwybodol o'r effaith hir-dymor wrth gymryd penderfyniadau, yn cyd-fynd â'r nod hwnnw.

Mae Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 2016 a Deddf Diogelu Data 2018 yn gosod rheolau cadarn ar gyfer trin gwybodaeth am unigolion. Rhoddir llawer mwy o hawliau i unigolion ac mae gofyn statudol i ni allu profi ein bod yn cadw at y ddeddfwriaeth.

Un o brif risgiau'r Cyngor yn y Gofrestr Risg ydi trin gwybodaeth, nid yn unig o ran yr ochr gyfreithiol ond hefyd o ran ein gallu i wneud y defnydd gorau o'r holl adnoddau gwybodaeth sydd gennym. Mae'r cynllun yma yn ffordd o fynd i'r afael a'r risgiau hynny.

Ffordd Gwynedd yw'r enw roddir ar y "ffordd o weithio" mae'r Cyngor wedi'i fabwysiadu er mwyn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth y mae'n ei wneud. Mae Cynllun Ffordd Gwynedd 2019-2022 yn pwysleisio rôl allweddol gwybodaeth ar gyfer sicrhau hyn:

- her barhaus i'r ffordd y byddwn yn gweithio.... y penderfyniadau sy'n dilyn yn seiliedig ar dystiolaeth yn hytrach na thybiaethau
- sicrhau fod gwybodaeth perfformiad yn cael ei defnyddio i wella gwasanaeth

- sicrhau bod rheolwyr a'u timau yn defnyddio'r wybodaeth a'r data sydd ar gael i'w lawn botensial

## 2. Meysydd gwaith

Rydym isod wedi grwpio'r gwahanol gynlluniau gwaith yn feysydd gwaith gwahanol.

## Cefnogi Busnes y Cyngor

### a) Safonau Data

***Nod – fod gennym ddata o safon***

Mae'r Comisiwn Archwilio wedi cyhoeddi safonau ar gyfer ansawdd data, er mwyn eu defnyddio gan gyrff cyhoeddus yn wirfoddol. Yn fras, mae chwe nodwedd ansawdd data da, sef:

**Perthnasedd**
Dylai data sydd wedi ei gasglu fod yn berthnasol i'r rheswm y mae'n cael ei ddefnyddio
**Dilysrwydd**
Dylai data gael ei gofnodi a'i ddefnyddio mewn cydsyniad ag unrhyw ofynion perthnasol
**Cyflawnder**
Dylai anghenion data fod wedi eu nodi'n glir, yn ddibynnol ar anghenion y corff a'r prosesau casglu data sydd ynghlwm a'r gofynion
**Amseroldeb**
Fe ddylai data gael ei gasglu cyn gynted â phosib ar ôl y digwyddiad neu weithgaredd, ac fe ddylai fod ar gael ar gyfer ei bwrpas arfaethedig o fewn cyfnod rhesymol. Fe ddylai data fod ar gael yn gyflym ac yn ddigon aml er mwyn cefnogi anghenion gwybodaeth ac i ddylanwadu ar benderfyniadau gwasanaethol neu reolaethol
**Cywirdeb**
Dylai data fod yn ddigon cywir ar gyfer ei bwrpas arfaethedig
**Sicrwydd**
Fe ddylai data gael ei gasglu mewn ffordd sefydlog a chyson ar draws holl fannau casglu a thros amser

Mae angen rhoi pwyslais ar safon gan fod defnyddio gwybodaeth anghyflawn, anghyson, sydd wedi dyddio yn arwain at risg o wneud penderfyniadau anghywir a gwastraffu adnoddau, a gallai hyd yn oed arwain at roi pobl fregus mewn perygl.

Dyma'r rhaglen waith ar gyfer mynd i'r afael â'r agenda yma:

- Datblygu holiadur ar gyfer asesu systemau ac asedau gwybodaeth
- Gweithio gyda pherchnogion y systemau ar yr holiadur, ac ar ddatrys y materion sy'n dod i'r amlwg wrth ei lenwi

- Hyrwyddo arferion da o ran ansawdd data sydd wedi dod i’r amlwg
- Datblygu Polisi Ansawdd

## b) Defnyddio gwybodaeth

***Nod – rhyddhau potensial yr holl wybodaeth sydd gennym***

Bob dydd, mae yna benderfyniadau sy'n effeithio ar bobl Gwynedd yn cael eu gwneud o fewn y Cyngor (yn amrywio o benderfyniadau strategol gan y Cyngor llawn neu'r Cabinet, allai gael effaith ar bawb yng Ngwynedd, i benderfyniadau gweithredol gan swyddogion unigol, sydd efallai'n effeithio un neu nifer fach o ddefnyddwyr gwasanaethau, ond allai o bosib gael effaith sylweddol iawn ar yr unigolion hynny). Rydym angen gwneud yn siŵr ein bod yn gwneud y defnydd gorau bosib o'r wybodaeth a thystiolaeth sydd gennym wrth wneud y penderfyniadau yma.

Dyma'r rhaglen waith ar gyfer yr agenda yma:

- Fel rhan o brosiect datblygu systemau adnoddau dynol y Cyngor, sicrhau bod adroddiadau ar gael ar alw i reolwyr i'w helpu i reoli eu gweithlu
- Datblygu trefniadau 'dashfwrdd' fel bod data allweddol yn cael ei grynhoi a'i adrodd yn amserol i uwch reolwyr a thimau rheoli
- Adnabod posibiliadau ar gyfer cyfathrebu gwahanol setiau data mewnol
- Sicrhau bod yna drefniadau i gyfeirio rheolwyr a staff at setiau data allanol allweddol fyddai'n eu helpu i wella gwasanaethau
- Cynhyrchu rhagamcanion poblogaeth ardaloedd o fewn Gwynedd
- Gwell gwybodaeth am lesiant ardaloedd o fewn Gwynedd, mewn ffurf hawdd cael ato

## c) Gwybodaeth i staff a gwybodaeth agored

***Nod – sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn rhwydd***

Mae'n hanfodol fod gwybodaeth berthnasol i wasanaethau ar gael yn rhwydd fel bod swyddogion yn medru gwneud eu gwaith.
Gall rhoi gwybodaeth am y Cyngor ar y wefan leihau'r baich o ateb ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth niferus.

Dyma'r rhaglen waith ar gyfer yr agenda yma:

**Staff**

- Sicrhau bod safleoedd iGwynedd yn agored cyhyd ag y bo modd

**Cyhoedd**

- Bod gwybodaeth ar gael yn rhwydd ar y wefan ar gyfer meysydd lle mae ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth niferus

**ch) Lleihau'r defnydd o bapur a hybu sganio**

***Nod – lleihau'r defnydd o bapur***

Mae angen lleihau faint o bapur a ddefnyddir am nifer o resymau:

- Lleihad sylweddol mewn costau argraffu
- Lles i'r amgylchedd
- Defnyddio llai o ofod swyddfa
- Caniatáu gweithio yn hyblyg

Dyma'r rhaglen waith ar gyfer yr agenda yma:

- Darganfod lle mae'r gwariant mwyaf a thargedu ymdrechion yn y gwasanaethau hynny.
- Datblygu a gweithredu model gweithredu newydd ar gyfer Argraffdy'r Cyngor. Hynny er mwyn sicrhau ei fod yn wasanaeth cynaliadwy ond yn un sydd hefyd yn cyfrannu at leihau y defnydd o bapur mae'r Cyngor yn ei gynhyrchu.
- Cyflwyno prosiectau sganio mewn meysydd allweddol (defnyddio meddalwedd Konica i sganio'n syth i iGwynedd)

**d) iGwynedd**

***Nod – ehangu'r defnydd o iGwynedd fel ein bod yn gwneud y mwyaf o'r hyn mae'n ei gynnig***

iGwynedd ydi system rheoli dogfennau'r Cyngor sydd yn eistedd ar Sharepoint. Mae pob aelod o staff bellach wedi symud o'r gyriannau ar y cyd i fod yn gweithio ar Sharepoint.
Dros y blynyddoedd nesaf mae angen sicrhau ein bod yn hyrwyddo beth sydd gan iGwynedd i gynnig e.e. llifoedd gwaith, rhannu'n allanol.
Byddwn hefyd yn mynd ati i ddefnyddio rhai o nodweddion newydd Microsoft ar gyfer categoreiddio, diogelu ac archifo gwybodaeth yn awtomatig o fewn iGwynedd.

Dyma'r rhaglen waith i fynd i'r afael a hyn:

- Trosi Sharepoint presennol i Sharepoint ar-lein
- Galluogi archifo awtomatig o'r system
- Prosiect ffeiliau staff – gwella trefniadau ffeiliau a hwyluso mynediad
- Sicrhau integreiddiad rhwng Microsoft Teams ac iGwynedd
- Datblygu rhwydwaith defnyddwyr
- Creu trefniadau gweinyddu'r system

## Cydymffurfio â'r Gyfraith

### (a) Cadw at ddeddfwriaeth diogelu data

***Nod – sicrhau cydymffurfiaeth efo'r ddeddfwriaeth***

Mae risgiau mawr i drigolion Gwynedd os nad yw eu gwybodaeth bersonol yn cael ei diogelu.
Mae risg o ddirwyon o hyd at £18m am dorri'r rheolau ond hefyd risg i enw da'r Cyngor a diffyg ymddiriedaeth gan bobl yn ein gallu i drin gwybodaeth. Risg amlwg ydi'r risg o 'ddigwyddiadau gwybodaeth' lle mae gwybodaeth bersonol wedi ei cholli, ei dwyn neu ei datgelu'n anfwriadol. Mae trefn o adrodd a chofnodi pob digwyddiad mewn lle ac i ddysgu gwersi.

Mae'r cynllun gweithredu ym maes cydymffurfiaeth yn nodi'r risgiau sydd gennym. Cafodd y rhain eu hadnabod trwy asesu cyrhaeddiad y Cyngor yn erbyn Fframwaith Archwilio Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth sef y rheoleiddiwr yn y maes.

- Diogelwch – sut ydym yn rheoli dyfeisiadau symudol a rheoli asedau
- Rheoli mynediad i systemau – cyfyngu mynediad i'r sawl sydd a'r hawl yn unig a thynnu hawliau pan fo staff yn symud/gadael
- Yr angen am gytundebau efo cwmnïau gwaredu gwastraff papur a TG
- Sicrhau cytundebau cyfreithiol cywir efo cyflenwyr TG
- Adolygu'r polisi Diogelwch
- Trefniadau parhad gwasanaeth
- Sicrhau cyfundrefn ar gyfer cynnal Asesiadau Effaith Diogelu Data
- Creu fframwaith Rheoli Risg Gwybodaeth
- Creu trefniadau effeithiol i reoli systemau CCTV mewn mannau cyhoeddus
- Sicrhau bod trefniadau i drin gwybodaeth gorfodi'r gyfraith yn briodol
- Monitro a lleihau nifer y digwyddiadau gwybodaeth

### (b) Trefnu a gwaredu gwybodaeth

***Nod – rhoi trefn ar wybodaeth a gwaredu gwybodaeth yn amserol***

Mae angen gwaredu gwybodaeth yn ddiogel ac yn amserol a pheidio cadw gormod o wybodaeth. Mae hyn yn un o hanfodion deddfwriaeth diogelu data.

Trwy waredu gwybodaeth rydym yn :

- Cadw at ddeddfwriaeth diogelu data
- Osgoi costau storio papur ac electronig
- Galluogi canfod gwybodaeth yn rhwyddach gan fod llai ohono

O ran rhaglen waith mae hyn yn golygu:

- Adolygu, cymeradwyo a gweithredu cyfnodau cadw

- Sicrhau bod gwybodaeth electronig yn cael ei dinistrio o fewn systemau
- Creu archif electronig ar gyfer iGwynedd
- Cynnal arolwg storfeydd papur i sicrhau bod popeth yn mewn trefn
- Creu cynllun hir-dymor ar gyfer y Ganolfan Gofnodion (sef storfa bapur gorfforaethol y Cyngor)
- Creu cynllun cadwedigaeth ddigidol h.y i sicrhau bod gwybodaeth yn ddarllenadwy mewn ffurf electronig am flynyddoedd i ddod

### (c) Rhannu gwybodaeth

***Nod - Sicrhau bod rhannu gwybodaeth bersonol yn allanol yn dilyn rheolau diogelu data***

Byddwn yn gwneud hyn trwy:

- Llunio protocolau rhannu gwybodaeth o dan y drefn WASPI (Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru) lle mae gwybodaeth bersonol yn cael ei rhannu'n rheolaidd gyda nifer o asiantaethau allanol.
- Datblygu dulliau diogel o rannu gwybodaeth yn allanol (e.e. trwy e-bost diogel, e-bost wedi ei amgryptio (Egress), defnydd o Teams a Sharepoint online)

## (ch) Hyfforddiant

***Nod – fod staff wedi eu hyfforddi mewn diogelu data a sgiliau TG***

Mae disgwyliad fod pob aelod o staff yn derbyn elfen o hyfforddiant diogelu data.
Gan mai camgymeriadau staff sy'n gyfrifol am fwyafrif helaeth y digwyddiadau gwybodaeth, mae darparu hyfforddiant yn rhan allweddol o'r gwaith i geisio lleihau nifer y digwyddiadau.

Rydym hefyd wedi adnabod fod angen gwella sgiliau TG. Mae cynllun corfforaethol ar y gweill i fynd i'r afael a hyn beth bynnag.

Dylid hefyd sicrhau fod hyfforddiant cyson ar iGwynedd fel bod staff yn medru gwneud y mwyaf o'r dechnoleg.

Dyma'r rhaglen ar gyfer y maes yma:

- Cynnal asesiad hyfforddiant i adnabod anghenion staff amrywiol, e.e. di-gyfrifiadur, a lefel gwahanol o fandadrwydd
- Datblygu cynllun hyfforddi corfforaethol, i gynnwys staff newydd, rheng-flaen, hyfforddiant adnewyddol, hyfforddiant arbenigol, prosesau dilyn i fyny
- Darparu a chyflwyno cynllun hyfforddi iGwynedd

## 3. Cyflawni a monitro'r Cynllun

Bydd y Gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth yn Adran Cefnogaeth Gorfforaethol yn arwain ar gyflawni'r Cynllun yma yn unol â'r cynllun gweithredu, gyda chefnogaeth gwasanaethau eraill o fewn yr Adran ac ar draws y Cyngor.

Mae adnodd staff parhaol o 7.8 cyfwerth amser-llawn yn y Gwasanaeth (rhaniad bras fesul maes gwaith isod) fydd yn gweithio ar gyflawni'r datblygiadau yma yn ogystal â dyletswyddau dydd-i-ddydd y Gwasanaeth. Fe fydd angen adnodd dros-dro ychwanegol ar gyfer cyflawni ambell elfen o'r Cynllun ac mae hynny eisoes yn derbyn sylw.

| Maes | Adnodd staff y Gwasanaeth |
|---|---:|
| Defnyddio gwybodaeth | 3.3 |
| Cydymffurfio â deddfwriaeth | 2 |
| Rheoli cofnodion a chefnogi iGwynedd | 1 |
| Gwybodaeth agored / datblygiadau eraill | 1.5 |
| **Cyfanswm** | **7.8** |

Bydd y Panel Gweithredol Llywodraethu Gwybodaeth yn monitro'r cynllun gweithredu yn chwarterol.

Mae'r nifer o ddigwyddiadau gwybodaeth ("breaches") yn fesur allweddol ac fe fydd hyn yn cael ei fonitro gan y Panel Gweithredol Llywodraethu Gwybodaeth a drwy'r drefn herio perfformiad.

## 4. Adolygu

Caiff y cynllun ei adolygu'n flynyddol.

Atodiad 2

# Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

## 1 Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

| |
|---|
| Cynllun Gwybodaeth |

### 1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

| |
|---|
| Gosod allan cynllun 5 mlynedd ar gyfer trin, dadansoddi a rheoli gwybodaeth ar draws y Cyngor. Cymryd lle'r Strategaeth Rheoli Gwybodaeth blaenorol. |

### 1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

| |
|---|
| Helen Parry |

### 1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

| |
|---|
| 13/01/2021 |

## 2) Gweithredu

**2.1 Pwy yw'r partneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?**

| |
|---|
| Dim partneriaid – prosiect mewnol yw hwn |

**2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei gymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchodedig?**

| |
|---|
| Gan na ragwelir unrhyw effaith uniongyrchol ar unrhyw grwpiau â nodweddion gwarchodedig ni welwyd yr angen i ymgysylltu'n benodol am y cynllun yma. |

**2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?**

| |
|---|
| d/b |

## 2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

d/b

## 2.5 Oes yna unrhyw flychau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

d/b

## 3) Adnabod yr Effaith

**3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi neu wasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae croeso i chwi ychwanegu nodweddion eraill os ydych chi'n dymuno.**

| **Nodweddion** | **Sut fath o effaith?** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | Positif | Positif – bydd gwell gwybodaeth yn rhoi sail tystiolaeth mwy cadarn ar gyfer cynllunio gwasanaethau ar gyfer pobl efo nodweddion gwarchodedig.<br>Hefyd o ran deddfwriaeth diogelu data mae gwarchodaeth benodol i'r nodwedd yma |
| **Yr iaith Gymraeg** | Positif | Gweler uchod |
| **Anabledd** | Positif | Gweler uchod a hefyd o ran deddfwriaeth diogelu data mae gwarchodaeth benodol i'r nodwedd yma |
| **Rhyw** | Positif | Gweler uchod o ran deddfwriaeth diogelu data mae gwarchodaeth benodol i'r nodwedd yma |
| **Oedran** | Positif | Gweler uchod |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Positif | Gweler uchod ac o ran deddfwriaeth diogelu data mae gwarchodaeth benodol i'r nodwedd yma |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | Positif | Gweler uchod ac o ran deddfwriaeth diogelu data mae gwarchodaeth benodol i'r nodwedd yma |
| **Ailbennu rhywedd** | Positif | Gweler uchod ac o ran deddfwriaeth diogelu data mae gwarchodaeth benodol i'r nodwedd yma |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Positif | Gweler uchod ac o ran deddfwriaeth diogelu data mae gwarchodaeth benodol i'r nodwedd yma |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Positif | Gweler uchod |

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd**

**a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

| **Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb** | **A yw'n cael effaith?** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Nac ydi | d.b |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Ydi | Mae cael gwell data ynghylch gweithlu'r Cyngor, ac am Wynedd yn gyffredinol, yn mynd i roi gwell sail tystiolaeth i'r Cyngor hyrwyddo cyfleoedd cyfartal ymysg ei staff ac yn y sir yn gyffredinol |
| **Meithrin perthnasau da** | Nac ydi | d/b |

## 4) Dadansoddi'r canlyniadau

### 4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

| |
|---|
| Nac ydi ond gall gwell gwybodaeth a data yn y pen draw helpu'n anuniongyrchol i ddarparu gwasanaethau'n well er mwyn rhoi sylw i faterion cydraddoldeb. |

### 4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

| |
|---|
| Na – gweler uchod. |

### 4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | Parhau |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |

**4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

| |
|---|
| Dim effeithiau negyddol i'w lliniaru |

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

| |
|---|
| d/b |

## 5) Monitro

**5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

| |
|---|
| Bydd y cynllun gweithredu yn cael ei fonitro gan y Panel Gweithredol Llywodraethu Gwybodaeth yn rheolaidd. |